OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2011 Rhif 1597 (Cy. 185) (C.61)

# ADEILADU, CYMRU

# Gorchymyn Deddf Democratiaeth Leol, Datblygu Economaidd ac Adeiladu 2009 (Cychwyn Rhif 2) (Cymru) 2011

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

I'r graddau y mae'r rheiny'n rhychwantu Cymru a Lloegr, mae'r Gorchymyn hwn yn cychwyn darpariaethau Rhan 8 o Ddeddf Democratiaeth Leol, Datblygu Economaidd ac Adeiladu 2009 (p.20) ("Deddf 2009") o ran contractau adeiladu sy'n ymwneud â gwneud gwaith adeiladu yng Nghymru. Nid yw'n cychwyn y darpariaethau hyn o ran contractau adeiladu eraill sy'n cael eu cychwyn gan orchmynion cychwyn ar wahân.

Mae Rhan 8 o Ddeddf 2009 yn diwygio Rhan 2 o Ddeddf Grantiau Tai, Adeiladu ac Adfywio 1996 (p.53) ("Deddf 1996").

Dyma'r darpariaethau yn Rhan 8 o Ddeddf 2009 y deuir â hwy i rym gan y Gorchymyn hwn (lle bo'n gymwys o ran Cymru):

- adran 138 sy'n rhoi pŵer newydd sy'n caniatáu i Weinidogion Cymru anghymhwyso unrhyw rai neu'r cyfan o ddarpariaethau Rhan 2 o Ddeddf 1996;
- adran 139 sy'n dileu'r cyfyngiad gwreiddiol a oedd yn cyfyngu Rhan 2 i gontractau ysgrifenedig;
- adran 140 sy'n cyflwyno darpariaeth i hwyluso cywiriadau i wallau clerigol neu wallau teipograffyddol mewn penderfyniad gan ddyfarnwr;
- adran 141 sy'n peri bod cytundeb ynghylch dyrannu costau dyfarnu yn aneffeithiol, oni bai bod amodau penodol yn gymwys;
- adran 142 sy'n rhoi sylw i gwestiwn peri bod taliadau o dro i dro o dan gontract adeiladu yn

amodol ar rwymedigaethau o dan gontract arall, a chwestiwn peri bod y dyddiad y bydd taliad yn ddyledus yn dibynnu ar sicrhau bod y talwr yn rhoi hysbysiad o'r swm y mae'n bwriadu ei dalu;

- adran 143 sy'n diwygio adrannau 109 a 110 o Ddeddf 1996 ac sy'n cyflwyno darpariaethau ynghylch rhoi hysbysiadau gan y talai;
- adran 144 sy'n cyflwyno gofyniad statudol bod rhaid talu symiau a bennir yn yr hysbysiadau hyn;
- adran 145 sy'n diwygio adran 112 o Ddeddf 1996 sy'n ymwneud â hawl contractwr i roi'r gorau i weithio os nad yw'r contractwr wedi'i dalu.

Mae erthygl 3 yn dwyn i rym y darpariaethau yn Rhan 8 o Ddeddf 2009, a hynny ar 1 Hydref 2011.

## NODYN YNGHYLCH GORCHMYNION CYCHWYN CYNHARACH

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae Gweinidogion Cymru wedi dwyn i rym adran 138 o Ran 8 o Ddeddf 2009 i'r graddau y mae'n rhychwantu Cymru a Lloegr, gan Offeryn Statudol 2011/1514, at y diben o alluogi Gweinidogion Cymru i wneud gorchmynion.

I'r graddau y maent yn rhychwantu Cymru a Lloegr, mae'r darpariaethau a ganlyn yn Neddf 2009 wedi'u dwyn i rym o ran Cymru gan orchmynion cychwyn a wnaed cyn dyddiad y Gorchymyn hwn.

| *Darpariaeth* | *Dyddiad Cychwyn* | *Rhif yr O.S* |
|---|---|---|
| Adran 69 (rhan) | 25.11.2009 | 2009/3087 |
| Adran 71 | 25.11.2009 | 2009/3087 |
| Adran 84 | 25.11.2009 | 2009/3087 |
| Adran 86 | 25.11.2009 | 2009/3087 |
| Adran 87 | 25.11.2009 | 2009/3087 |

Mae amryw o ddarpariaethau Deddf 2009 wedi'u dwyn i rym i'r graddau y maent yn rhychwantu Cymru a Lloegr gan yr Ysgrifennydd Gwladol drwy'r Offerynnau Statudol a ganlyn: O.S. 2009/3087, O.S. 2009/3318 ac O.S. 2010/881.

Gweler hefyd adran 148 ynglŷn â'r darpariaethau a ddaeth i rym wrth i Ddeddf 2009 gael ei phasio.

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2011 Rhif 1597 (Cy. 185) (C.61)

# ADEILADU, CYMRU

## Gorchymyn Deddf Democratiaeth Leol, Datblygu Economaidd ac Adeiladu 2009 (Cychwyn Rhif 2) (Cymru) 2011

*Wedi'i wneud* *28 Mehefin 2011*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 149(1) o Ddeddf Democratiaeth Leol, Datblygu Economaidd ac Adeiladu 2009(**1**), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

**Enwi a dehongli**

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Democratiaeth Leol, Datblygu Economaidd ac Adeiladu 2009 (Cychwyn Rhif 2) (Cymru) 2011.

(2) Yn y Gorchymyn hwn, ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Democratiaeth Leol, Datblygu Economaidd ac Adeiladu 2009.

**Rhychwant a chymhwyso'r darpariaethau sy'n dod i rym**

**2.** Mae Rhan 8 o'r Ddeddf yn dod i rym i'r graddau y mae'n rhychwantu Cymru a Lloegr o ran contractau adeiladu sy'n ymwneud â gwneud gwaith adeiladu yng Nghymru yn unol ag erthygl 3.

**Darpariaethau sy'n dod i rym ar 1 Hydref 2011**

**3.** Daw'r darpariaethau a ganlyn i rym ar 1 Hydref 2011—

(a) adran 138 at yr holl ddibenion eraill;

(b) adrannau 139 i 145.

---

(**1**) 2009 p.20.

*John Griffiths*

Gweinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy,
un o Weinidogion Cymru

28 Mehefin 2011